THOMAS, DAVID ('Dewi Hefin '; 1828 - 1909), bardd

Enw: David Thomas
Ffugenw: Dewi Hefin
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1909
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn Cnapsych, Llanwennog, Sir Aberteifi, 4 Mehefin 1828. Addysgwyd ef yn ysgol Cribyn, a bu ef ei hun yn cadw ysgol yn Cribyn, Bwlch y Fadfa, Mydroilyn, Llanarth, Cwrtnewydd, a Llanwnnen yn Sir Aberteifi. Ymddiswyddodd yn 1883. Cyfrannodd lawer i amryw gyfnodolion fel *Seren Gomer* a'r *Ymofynydd*. Cyhoeddwyd pedair cyfrol o'i farddoniaeth: *Y Blodau*, 1854; *Blodau Hefin*, 1859; *Blodau'r Awen*, 1866; *Blodau Hefin*, 1883. Bu farw 9 Mawrth 1909.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

The Welsh Gazette, 18 Mawrth 1909

Ben Morus, *Byr-Gofion am Dewi Hefin* (Lampeter 1912)

NLW MSS 3260 a 4361

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 68718517

Wikidata: Q5240340

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu